# CYDBWYLLGOR ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

**Cynhaliwyd ar: 21 Mehefin 2019**

**Aelod / Swyddog Arweiniol: Steve Gadd**

**Awdur yr Adroddiad: Paula O'Hanlon**

**Teitl: Sefyllfa Derfynol a Chyfrifon Cydbwyllgor 2018/19 a Chyllideb 2019/20**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion sefyllfa derfynol cyllideb refeniw'r AHNE ar 31 Mawrth 2019 ynghyd â ffigurau'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2019/20.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol yr AHNE ar 31 Mawrth 2019, a cheisio cymeradwyaeth i'r gyllideb ar gyfer 2019/20.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Gofynnir i'r Aelodau nodi'r sefyllfa ariannol derfynol ar gyfer 2018/19 (Atodiad 1) a chymeradwyo cyllideb ddrafft 2019/20 yn ffurfiol (Atodiad 2). Hefyd, gofynnir i'r Aelodau adolygu a llofnodi'r Datganiad Blynyddol ar gyfer 2018/19 (Atodiad 3) a nodi Balansau'r Gronfa Wrth Gefn ar 31 Mawrth 2019 (Atodiad 4).

## 4. Manylion yr Adroddiad.

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o sefyllfa refeniw terfynol yr AHNE ar gyfer 2018/19 y manylir arni yn Atodiad 1. Mae'r sefyllfa derfynol yn dangos tanwariant cyffredinol o £21,275 (Craidd £16,244 ac Ardal £5,031), sydd wedi cael ei ariannu o'r gronfa refeniw wrth gefn. Mae swm o £28,774 wedi cael ei dynnu o gronfa wrth gefn y prosiect i ariannu gweithgareddau'r prosiect yn 2018/19. Mae cyllid grant Cronfa Datblygu Cynaliadwy o £147,000 ychwanegol a dderbyniwyd ym mis Mawrth, wedi cael ei roi yng nghronfa wrth gefn y prosiect a'i glustnodi ar gyfer prosiectau Cronfa Datblygu Cynaliadwy yn 2019/20.

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi copi o Ddatganiad Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyrff llywodraeth leol lai yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 (Atodiad 3) i'w ystyried a'i gymeradwyo. Mae'r adroddiad yn cael ei archwilio ar hyn o bryd gan yr Adran Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ddinbych, felly bydd copi wedi'i lofnodi ar gael yn y cyfarfod.

**5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?**

Bydd rheoli cyllidebau refeniw'r AHNE yn effeithiol yn helpu cyflawni blaenoriaethau a gytunwyd arnynt yn y cynllun rheoli ar gyfer y flwyddyn bresennol ac yn sail i weithgarwch ym mhob maes, yn enwedig ein perthynas â'n partneriaid cyllido a'n cyd-flaenoriaethau.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

*Amh*

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Mae'r sefyllfa ariannol yn eitem sefydlog ym mhob un o gyfarfodydd y Cydbwyllgor.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sefyllfa ariannol yr AHNE ar gyfer 2018/19.

Mae cymeradwyo a llofnodi Datganiad Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru yn ffurfiol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 (Atodiad 3) yn ofyniad statudol cyn i Archwiliad Allanol archwilio'r cyfrifon.

Mae Sir Ddinbych wedi cynyddu lefel ei gyfraniad ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Mae'r gyllideb ddrafft ar gyfer 19/20 yn tybio na fydd unrhyw newid yng nghyfraniadau CSFf na CBSW. Mae lefel grant gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau yn gyson gyda 2018/19

Ar 31 Mawrth 2019, roedd balans Cronfa Wrth Gefn yr AHNE yn £259,133 ond mae £203,678 o'r ffigwr hwn wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau penodol a fydd yn cael eu cynnal yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20. Mae'r balans o £55,455 ar gael i helpu gefnogi cyllideb 2019/20 a gwrthbwyso unrhyw bwysau ariannu yn y dyfodol neu i gael ei ddefnyddio yn ôl argymhellion y Cydbwyllgor.

Bydd y gyllideb y cytunir arni ar gyfer 2019/20 yn sicrhau sefydlogrwydd ariannol ar gyfer y Cydbwyllgor dros y 12 mis nesaf. Fodd bynnag, rhaid cydnabod o hyd bod cyllidebau pob corff yn y sector cyhoeddus yn dod o dan bwysau cynyddol oherwydd yr hinsawdd economaidd a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â Brexit, sy'n golygu na ellir dibynnu ar lefelau cyllido yn y dyfodol.

## 10. Pa risgiau sydd ac oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'r gyllideb arfaethedig yn ddibynnol ar incwm gan Gyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r tri Awdurdod Lleol. Bydd unrhyw newidiadau i'r lefelau incwm hyn yn peri risg i gyflawni prosiectau yn y dyfodol a'n gallu i gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau yng Nghynllun Rheoli'r AHNE.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.